Deddf Cofrestru Tir 2002
Cwmpas y cyfarwyddyd hwn
Mae'r cyfarwyddyd hwn yn egluro eich hawliau o ran cael gafael ar wybodaeth sy'n cael ei dal amdanoch chi o dan Ddeddf Gwarchod Data 1998. Mae hefyd yn egluro'r meysydd lle cafodd y Gofrestrfa Tir ei heithrio o ddarpariaethau'r Ddeddf.

Eich hawliau dan Ddeddf Gwarchod Data 1998

Manylion cyswllt

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ac i gael y cyhoeddiad hwn ar ffurf wahanol, cysylltwch a Cefnogaeth i Gwsmeriaid ar customersupport@landregistry.gsi.gov.uk
neu
ffoniwch 0844 892 1111
neu
0844 892 1122 am wasanaeth Cymraeg o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm.

Cost galwadau yw 3c y funed o linellau tir BT. Gall cost alwadau symudol a rhwydweithiau eraill amrywio. Nid yw'r Gofrestrfa Tir yn cael unrhyw gyllid o'r galwadau hyn.

I gael copïau o hwn a'n holl gyfarwyddiadau eraill, am ddi-dâl:
- darllenwch/llwythwch y cyfarwyddiadau i lawr yn Gymraeg ac yn Saesneg o www.cofrestfratir.gov.uk
- cysylltwch â Cefnogaeth i Gwsmeriaid

1 Byrfoddau

"DGD 1998" yw Deddf Gwarchod Data 1998;
"DCT 2002" yw Deddf Cofrestru Tir 2002;
"RhCT 2003" yw Rheolau Cofrestru Tir 2003.

2 Cyflwyniad

Yn dilyn Cyfarwyddeb 95/46EC Cyngor yr UE, disodlodd Deddf Gwarchod Data 1998 Ddeddf Gwarchod Data 1984. Nid oedd y Ddeddf flaenorol ond yn caniatáu mynediad i gofnodion cyfrifiadurol, ond mae cwmpas y ddeddf newydd gryn dipyn yn ehangach. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn egluro prif ddarpariaethau DGD 1998.

Er bod DGD 1998 yn effeithio ar y Gofrestrfa Tir, rhaid dweud nad yw'n berthnasol i fwyafrif y data a ddaliwn er mwyn gwneud ein dyletswyddau statudol. Y rheswm am hyn yw bod yr wybodaeth honno eisoes ar gael yn gyhoeddus dan ddeddfwriaeth arall ar sail y Gofrestrfa Tir. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu mai DCT 2002 sy'n rheoli archwilio gwybodaeth sydd ar y cofrestri teitl cyhoeddus yn hytrach na DGD 1998 (gwelwch adran *7 Lle nad yw DGD 1998 yn berthnasol i'r Gofrestrfa Tir* isod).

3 Hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth

Dan adran 18, DGD 1998, rhaid i ni hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth, sydd â chfrifoldeb dros bob ymholiad dan DGD 1998, bob blwyddyn o'r data personol a broseswn. Bydd y Comisiynydd yn cynnwys yr hysbysiad ar y gofrestr gwarchod data, sydd yn agored i archwiliad cyhoeddus (adran 19, DGD 1998). Gallwch weld ein cofnod ar eu gwefan yn www.dpr.gov.uk

4 Egwyddorion gwarchod data

Mae Adran 4, DGD 1998 yn dangos wyth egwyddor sy'n rhaid i reolwyr data, gan gynnwys y Gofrestrfa Tir, gadw atynt. Rhaid i unrhyw ddata gaiff eu defnyddio:
- gael eu prosesu yn deg ac yn gyfreithlon;
- gael eu prosesu at ddibenion cyfyngedig;
- fod yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol;
- fod yn fanwl gywir (mae'r wybodaeth sy'n rhaid i ni ei darparu eisoes dan ein deddfwriaeth yn rhydd o'r egwyddor hon - gwelwch adran *7 Lle nad yw DGD 1998 yn berthnasol i'r Gofrestrfa Tir* isod);
- heb gael eu cadw yn hwy nag sydd raid;

— yn cael eu prosesu yn unol â hawliau gwrthrych y data;
— yn ddiogel. Mae hyn yn golygu bod y gyfundrefn:
  — yn gorfod bod yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod; *ac*
  — yn gorfod cynnwys mesurau i ddiogelu'r data rhag colli eu cywirdeb;
— ond yn cael eu trosglwyddo i'r gwledydd hynny gyda diogelwch digonol perthnasol i ddeddfwriaeth gwarchod data cartref y gwledydd hynny.

Bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi rhagor o gyfarwyddyd ar gymhwyso'r egwyddorion hyn.

5 Gwneud ceisiadau am wybodaeth

Os nad yw eich cais yn berthnasol i wybodaeth ar y gofrestr deitl (gwelwch adran *7 Lle nad yw DGD 1998 yn berthnasol i'r Gofrestrfa Tir* isod) bydd angen i chi anfon y canlynol atom:
— cais ysgrifenedig am wybodaeth sy'n cael ei dal amdanoch;
— digon o fanylion i ni allu lleoli'r data all fod gennym amdanoch. Er enghraifft, os ydych yn gyn-aelod o'r staff, byddai angen i chi rhoi fanylion o ba bryd ac ymhle y buoch yn gweithio i'r Gofrestrfa Tir;
— tystiolaeth o bwy ydych (neu, os yw'n briodol, tystiolaeth o'ch pŵer i weithredu ar ran gwrthrych y data);
— taliad o £10 (siec neu archeb bost yn daladwy i "Cofrestrfa Tir").

6 Beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith y byddwch wedi rhoi'r holl wybodaeth a amlinellwyd uchod, byddwn yn delio â'ch cais mor fuan ag y bo modd. Mae DGD 1998 yn mynnu ein bod yn delio â'ch cais o fewn 40 diwrnod. Enw hyn yw "y rheol 40 diwrnod". Bydd ein hymateb yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:
— manylion y data personol sy'n cael eu dal amdanoch;
— at ba ddibenion mae'n cael ei ddefnyddio;
— i bwy y gall y data gael eu datgelu.

Gall yr wybodaeth y gofynnwch amdani gynnwys manylion ynghylch pobl eraill sy'n fyw. Os yw, efallai y byddwn yn gorfod cael eu caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth neu gallwn olygu'r wybodaeth i adael allan y manylion personol hynny. Yn yr achos hwn, mae modd ymestyn y rheol 40 diwrnod.

7 Lle nad yw DGD 1998 yn berthnasol i'r Gofrestrfa Tir

Mae llawer o'r wybodaeth y bydd y Gofrestrfa Tir yn ei dal yn rhydd o ddarpariaethau dadlennu DGD 1998. Mae hyn oherwydd ei bod o fewn yr eithriad sydd yn adran 34 y Ddeddf, sy'n eithrio gwybodaeth sy'n gorfod bod ar gael yn gyhoeddus dan ddeddfwriaeth arall. Mae hyn yn golygu fod raid i chi ddefnyddio'r drefn yn ôl deddfwriaeth Cofrestru Tir yn hytrach na deddfwriaeth Gwarchod Data i wneud eich ymholiad

Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys:
— y Gofrestr Tir (adran 66, DCT 2002). Gwelwch Gyfarwyddyd i'r Cyhoedd *1 Cyfarwyddyd ar yr wybodaeth a gadwn a sut y gallwch ei chael* er mwyn cael rhagor o wybodaeth;
— gwybodaeth sydd mewn ceisiadau i'r Gofrestrfa Tir (adran 66, DCT 2002). Gwelwch Gyfarwyddyd Ymarfer *11 Archwiliad a cheisiadau am gopïau swyddogol* i gael rhagor o wybodaeth;
— chwiliad o'r Mynegai Enwau Perchenogion (rheol 11, RhCT 2003);
— rhybuddiadau yn erbyn cofrestriad cyntaf (adran 66, DCT 2002);
— gwelwch Gyfarwyddyd Ymarfer *3 Rhybuddiadau yn erbyn cofrestriad cyntaf* i gael rhagor o wybodaeth;
— y Gofrestr Pridiannau Tir (adran 9, Deddf Pridiannau Tir 1972).

8 Gwybodaeth gyffredinol

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich hawliau dan DGD 1998, ysgrifennwch at:

Y Swyddog Gwarchod Data
Cofrestrfa Tir
32 Lincoln's Inn Fields
Llundain
WC2A 3PH
Ffôn: 020 7917 8888

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y deliwyd â'ch cais neu os dymunwch i fynd â'r mater ymhellach, cofiwch gysylltu â'r:

Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF
Ffôn: 01625 524510

9 Ymholiadau a sylwadau

Os oes gennych bryder arbennig sydd heb gael sylw yn y cyfarwyddyd hwn, cofiwch gysylltu â'r Gofrestrfa Tir cyn gwneud eich cais – gwelwch y panel Manylion Cysylltu ar glawr blaen y cyfarwyddyd hwn. Os yw'r broblem neu ymholiad yn gymhleth, gall fod yn well i chi wneud eich ymholiad yn ysgrifenedig.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau o ran ein cyfarwyddiadau, anfonwch hwy i:

Isadran Ymarfer
Cofrestrfa Tir
32 Lincoln's Inn Fields
Llundain
WC2A 3PH
(DX1098 London/
Chancery Lane WC2).

Cofiwch

— **Ydi'ch cais yn un lle mae DGD 1998 yn berthnasol (yn hytrach na DCT 2002)?**

— **Ydych chi wedi cynnwys yr holl wybodaeth sydd arnom ei hangen, gan gynnwys tystiolaeth o bwy ydych?**

— **Ydych chi wedi cynnwys y taliad cywir?**

Peter Collis
Prif Gofrestrydd Tir

© Hawlfraint y Goron
Nid yw i gael ei atgynhyrchu heb ganiatâd Yr Uned Ffurflenni, Cofrestrfa Tir (yn ôl awdurdod dirprwyedig Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi), 32 Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PH.

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan:
Cofrestrfa Tir, Cyhoeddi Corfforaethol y Pencadlys, 32 Lincoln's Inn Fields, Llundain WC2A 3PH.

RHAGORIAETH MEWN GWASANAETHAU CWSMERIAID